CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y cyfarfod:	**21/09/23**
Teitl:	**Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig**
Pwrpas yr adroddiad:	**Ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a ddiweddarwyd.**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyllid a Chaffael**

Fel arfer, caiff Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ei diweddaru bob blwyddyn. Yn sgil yr heriau digynsail a wynebwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24, nid oedd yn bosib diweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ystod y broses honno a hynny oherwydd bod yr holl ymdrechion wedi mynd tuag at bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24.

Ni ddylid ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig fel cyllideb fanwl ffurfiol na phendant, yn hytrach, mae'n cynnig dull trosfwaol y bydd angen i'r Cyngor ei fabwysiadu er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau gan gynnwys ystyried yr amgylchedd deddfwriaethol, economaidd allanol a phwysau gwario a chyllid dangosol a ragwelir yn ystod y cyfnod.

Felly mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi cael ei diweddaru ac erbyn hyn mae'n cynnwys y cyfnod rhwng 2023/24 a 2026/27. Mae'n cynnwys Crynodeb Gweithredol sy'n nodi'r prif faterion sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth fanwl.

Tynnir sylw'r Aelodau yn benodol at y canlynol:

Crynodeb Gweithredol	Tudalennau 2-3
Blaenoriaethau Cyllideb y Cyngor a'r cysylltiad rhwng y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth Gorfforaethol 2022 – 2027 a'r Amcanion Llesiant Corfforaethol cysylltiedig	Tudalennau 5-10
Y Pwysau Dangosol ar y Gyllideb o ran Costau	Tudalennau 16-18
Senarios Bwlch Cyllido'r Gyllideb sy'n edrych ar lefelau gwahanol o gyllid dangosol o ran Treth y Cyngor a chyllid Llywodraeth Cymru	Tudalen 26
Dadansoddiad sensitifrwydd o'r gwahanol newidynnau o fewn y gyllideb	Tudalen 35
Atodiad 1 - Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu	Tudalen 37

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ei gyfarfod ar 19/07/23 ac fe'i ystyriwyd gan Cabinet yn ei gyfarfod ar 05/09/20232. Penderfynodd y Cabinet:

1. Gymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig;
2. Argymell i'r Cyngor Llawn ar 21/09/23 bod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a ddiweddarwyd yn cael ei chymeradwyo; a
3. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chrafu Adnoddau Corfforaethol.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam	Naddo
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	***Crynodeb:*** **Hirdymor:** Amherthnasol **Integreiddio:** Amherthnasol **Cydweithio:** Amherthnasol **Cynnwys:** Amherthnasol **Atal:** Amherthnasol
Argymhellion:	1. I'r Cyngor gymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
Trosolwg a Chraffu:	Adnoddau Corfforaethol – 19/07/23
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Pob un
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
Pwerau statudol:	
Atodiadau:	Atodiad 1 – Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael
Swyddogion Adrodd:	Duncan Hall Justin Davies Mark Bridges
Dyddiad:	06/09/23